OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 206

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

## RHAN 10

Darpariaethau cyffredinol ac atodol ynglŷn â hysbysiadau iechyd planhigion

**Darpariaethau amrywiol ynglŷn â hysbysiadau**

**36.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw hysbysiad a roddir gan arolygydd iechyd planhigion o dan y Rheoliadau hyn heblaw hysbysiad a roddir o dan reoliad 33(4) **[**[F1]neu Atodlen 4A**]**.

(2) Caiff yr hysbysiad—

(a) pennu—

(i) un neu ragor o ofynion neu ofynion amgen;

(ii) ym mha fodd ac ym mha gyfnod y mae'n rhaid cyflawni unrhyw ofyniad neu amod a bennir yn yr hysbysiad, neu

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu unrhyw berson arall y mae'n ymddangos ei fod â gofal am y fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi—

(i) hysbysu'r awdurdod priodol am unrhyw newid ym meddiannaeth y fangre, dyddiad y newid ac enw'r meddiannydd newydd, a

(ii) rhoi gwybod i feddiannydd newydd y fangre am gynnwys yr hysbysiad.

(3) Rhaid i unrhyw waith i ddinistrio, gwaredu, ailallforio neu drin planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall neu bla planhigion y mae'n ofynnol ei wneud o dan yr hysbysiad gael ei wneud neu rhaid trefnu iddo gael ei wneud, er boddhad arolygydd iechyd planhigion gan y person y mae'r hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo o'r man a bennir yn yr hysbysiad neu yn y man hwnnw.

(4) Caiff arolygydd iechyd planhigion ddiwygio'r hysbysiad neu ei dynnu'n ôl drwy hysbysiad pellach.

(5) Caiff yr hysbysiad ddiffinio hyd a lled y fangre y cyfeirir ati yn yr hysbysiad drwy gyfeirio at fap neu blan neu fel arall.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 36(1) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 36 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Cyflwyno hysbysiadau**

**37.**—(1) Caniateir i hysbysiad gael ei gyflwyno i weithredwr cofrestredig—

(a) drwy ei ddanfon yn bersonol,

(b) drwy ei adael yng nghyfeiriad cysylltu'r gweithredwr cofrestredig, neu ei anfon yno drwy'r post, neu

(c) drwy ei anfon at y cyfeiriad ebost y mae'r gweithredwr wedi ei roi i'r awdurdod priodol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau.

(2) Caniateir i hysbysiad gael ei gyflwyno i unrhyw berson arall—

(a) drwy ei ddanfon yn bersonol,

(b) drwy ei adael yng nghartref neu fan busnes hysbys diwethaf y person, neu ei anfon yno drwy'r post, neu

(c) drwy ei anfon at unrhyw gyfeiriad ebost y mae'r person wedi ei roi i'r awdurdod priodol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau

(3) Os oes hysbysiad i'w roi gan arolygydd iechyd planhigion **[**[F2]neu'r awdurdod priodol**]** i feddiannydd neu i berson arall sydd â gofal am fangre, ac na ellir dod o hyd i gartref neu gyfeiriad hysbys diwethaf y person hwnnw ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, caniateir cyflwyno'r hysbysiad i'r person hwnnw drwy ei gyfeirio at "y meddiannydd" a'i adael wedi ei osod yn weladwy ar wrthrych yn y fangre am gyfnod o saith niwrnod.

(4) Caniateir i hysbysiad gael ei gyflwyno—

(a) yn achos corff corfforedig (heblaw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig), i ysgrifennydd neu glerc y corff hwnnw yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff hwnnw,

(b) yn achos partneriaeth (heblaw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, ond gan gynnwys partneriaeth Albanaidd), i bartner neu berson sy'n llywio neu'n rheoli busnes y bartneriaeth yng nghyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth, neu

(c) yn achos partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, i aelod o'r bartneriaeth yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth.

(5) At ddibenion paragraff (4), prif swyddfa cwmni a gofrestrwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu bartneriaeth sy'n cyflawni busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw ei brif swyddfa neu ei phrif swyddfa yn y Deyrnas Unedig.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfeiriad cysylltu" ("*contact address*"), mewn perthynas â gweithredwr cofrestredig, yw—

(a) prif gyfeiriad y gweithredwr yn y gofrestr, neu

(b) unrhyw gyfeiriad post arall yng Nghymru y mae'r gweithredwr wedi ei roi i'r awdurdod priodol fel cyfeiriad cysylltu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad sydd i'w roi gan arolygydd iechyd planhigion **[**[F3]neu'r awdurdod priodol**]** o dan y Rheoliadau hyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn rhl. 37(3) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(4)(a)**

**F3** Geiriau yn rhl. 37(6) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(4)(b)**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I2** Rhl. 37 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020, RHAN 10.